Judith Stone

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Serch symud yn ddiweddar i'r sector preifat, gweithiwr elusennol proffesiynol ydw i yn y bôn gyda thros 20 mlynedd o brofiad ac yn Gadeirydd ymrwymedig i Aren Cymru. Daw fy nghred yn y trydydd sector nid yn unig o'm gyrfa, ond hefyd am fod fy mywyd personol yn fwy cyfoethog yn sgil bod yn rhan o fudiadau gwirfoddol fel gwirfoddolwr, ymddiriedolwr, buddiolwr a chefnogwr.

Credaf y gallwn ddod â'r canlynol i fwrdd CGGC:

- Angerdd a brwdfrydedd am y sector gwirfoddol
- Dull sy'n seiliedig ar werthoedd – o ran didwylledd a chynhwysiant, cydraddoldeb, gonestrwydd, uniondeb, tegwch ac atebolrwydd
- Dealltwriaeth ddofn o'r materion sy'n bwysig i chi a rhwydwaith sector gwirfoddol sefydledig - o weithio i CGGC, fel gwirfoddolwr ac ymddiriedolwr.
- Gwybodaeth a sgiliau perthnasol – gan gynnwys llywodraethiant, deddfwriaeth, cyllid a rheoli risg.
- Persbectif strategol - Rwy'n Rheolwr Gyfarwyddwr cwmni ac yn Gadeirydd Bwrdd ymddiriedolwyr, gyda chylch gwaith strategol yn hytrach na gweithredol.
- Amser a chymhelliad – Mae fy ngwaith yn rhan-amser a gallaf ymrwymo i fod yn ymddiriedolwr i gefnogi CGGC i barhau i fod yn eiriolwr a gwarcheidwad dibynadwy ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru.